

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Cwestiynau Cyffredin ar ôl DPP Tystysgrif a Diploma Tachwedd 2021

- 1. Mae fy nysgwyr blwyddyn 12 presennol yn gwneud y dystysgrif dros ddwy flynedd. A allant sefyll arholiad uned 2 ym mis Ionawr 2022, Haf 2022 ac Ionawr 2022 os oes angen?**
Gallant, mae cyfle ychwanegol i ailsefyll, fel y nodir yn y ddogfen addasiadau Haf 2022 ar wefan DIGC.
https://www.dysguiechydagofal.cymru/media/2995/welsh_summer_2022_adaptations_1_3_hsc_principles_and_contexts_-_120821_-_copy.pdf.
- 2. A fydd arholiad mis Ionawr ar gael fel cyn bapur?**
Cyhoeddir arholiadau Uned 2 ac Uned 5 Ionawr i gyd fel cyn bapurau yn unol â pholisi cyhoeddi CBAC.
- 3. A oes angen i ni wirio tasgau ystafell ddosbarth yn fewnol neu asesiadau ffurfiannol yr ydym yn eu creu?**
Dim ond y gwaith asesiad di-arholiad ar gyfer pob un y mae angen ei ddilysu'n fewnol.
- 4. Rydyn ni'n gwneud y dystysgrif dros ddwy flynedd. Allech chi argymhell amserlenni, os gwelwch yn dda? Dechreuais gydag Uned 2 fis Medi diwethaf tan hanner ffordd drwy'r flwyddyn academiaidd ac yna gwnes Uned 1 yn hanner olaf y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. Ar hyn o bryd rwy'n ailedrych ar Uned 2 ar gyfer arholiad mis Ionawr ac yna byddaf yn dechrau Uned 3.**
Ydy, mae hwn yn ddull synhwyrol sy'n caniatáu i'r dysgwyr fanteisio ar gyfleoedd asesu drwy gydol y cwrs yn hytrach na'u llwytho ar y diwedd.
- 5. Uned 3, a ddylwn i gael dysgwyr i gyflwyno A, B, C, Ch a D ar ôl gorffen pob adran yn Uned 1 neu gyflwyno'r cyfan ar y diwedd?**
Dylid cyflwyno'r gwaith pan fydd y dysgwyr wedi cwblhau pob adran.
- 6. A ddylent gyfeirnoddi yn y testun, mewn llyfryddiaeth neu yn y ddau?**
Dylent, mae angen cyfeirnoddi ym mhob tasg asesiad di-arholiad i sicrhau nad yw ymgeiswyr wedi llên-ladrata unrhyw ddeunydd nad yw'n perthyn iddynt. Gellir gwneud hyn y naill ffordd neu'r llall yn dibynnu ar sut mae dysgwyr yn cyflwyno eu tystiolaeth. E.e., adroddiad, cyflwyniad ac ati.
- 7. A fydd PowerPoint y digwyddiad DPP yn cael ei anfon atom?**
Bydd y cyflwyniadau PowerPoint ar gyfer yr holl ddigwyddiadau DPP ar gael yn yr adran deunyddiau i'w llwytho i lawr ar ôl y digwyddiad.
Maent hefyd yn cael eu rhoi ar wefan ddiogel CBAC.

8. Sut mae cael mynediad at y wefan ddiogel?

Gellir cael mynediad at wefan ddiogel CBAC yma:

<https://www.wjecservices.co.uk/Welsh/login.asp>.

Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi a chyfrinair yn barod, bydd eich swyddog arholiadau yn gallu rhoi'r rhain i chi.

9. A oes rhestr o'r Egwyddorion gofal y dylid mynd i'r afael â nhw os gwelwch yn dda gan nad yw hyn yn glir yn y fanyleb?

Mae rhestr yn y fanyleb a byddai llyfr gwaith un Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol: egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion) ar y wefan gofal cymdeithasol yn ddefnyddiol wrth addysgu'r rhan hon o'r cynnwys.

10. Mae Lloegr yn cyhoeddi testunau ymlaen llaw ar gyfer arholiadau. Beth yw'r cynlluniau yng Nghymru ac ar gyfer arholiad mis Ionawr?

Mae hysbysiadau am wybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cyfres arholiadau Ionawr 22 wedi'u cyhoeddi ac maent ar gael ar dudalen pwnc DIGC.

<https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/level-3-health-and-social-care-principles-and-contexts/?=2/>

11. Rydyn ni'n gwneud y dystysgrif dros 2 flynedd. Gwnaeth y dysgwyr uned 1 y llynedd pan gafodd tasg 2 ei dileu. Pryd byddwn ni'n mewnblynnu'r canlyniadau?

Os ydych chi'n cyflwyno'r rhain i'w cymedroli ar gyfer cyfres arholiadau haf 2022, rhaid i'r cymedrolwr dderbyn y sampl o waith erbyn 11 Mehefin fan bellaf, felly bydd angen i chi gyflwyno'ch marciau a fydd wedyn yn cynhyrchu'r sampl i'w chyflwyno, mewn pryd i chi gyflwyno'r sampl i'r cymedrolwr.

12. Gwnaethom Uned 1 y llynedd pan gafodd tasg 2 ei dileu ac rydym yn gwneud unedau 1 a 3 eleni. A fydd hyn yn glir pan fyddwn yn cyflwyno marciau?

Bydd, ond os oes unrhyw broblemau, cysylltwch â ni am gymorth pellach.

13. Rydyn ni'n tybio na fydd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd i ychwanegu lluniau ac ati. Allwch chi gadarnhau hyn?

O ran asesiadau dan reolaeth sydd â myneiad cyfyngedig i'r rhyngrwyd, gellir goresgyn hyn drwy gadw banc o luniau mewn dogfen Word ymlaen llaw.

14. Yn yr enghraifft mae'r dysgwyr wedi defnyddio'r ddwy astudiaeth achos. Ydyn nhw'n cael gwneud hynny?

Cynhyrchwyd y gwaith enghreifftiol fel hyn i gynyddu ei werth fel enghraifft yn unig. Dylid defnyddio'r un astudiaeth achos ar gyfer pob tasg.

15. A fydd gwerslyfr sy'n benodol i'r cymhwyster hwn yn cael ei gyhoeddi yn fuan?

Mae'r gwerslyfr TAG UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymdrin â chynnwys Lefel 3 IGC: Egwyddorion a Chyd-destunau ac mae ffurflen archebu ar gael o adran Adnoddau'r dudalen pwnc ar wefan DIGC:

https://resource.download.wjec.co.uk/vtc/2019-20/hsc19-20_1-10/order_form/Order%20form_HSC_AS_book.docx.24.

16. Pryd bydd y gwerslyfr ar gael?

Mae gwerslyfr TAG UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn ymdrin â chynnwys dystysgrif Lefel 3 IGC: Egwyddorion a Chyd-destunau ac mae ffurflen archebu ar gael ar

dudalen pwnc gwefan DIGC: https://resource.download.wjec.co.uk/vtc/2019-20/hsc19-20_1-10/order_form/Order%20form_HSC_AS_book.docx.26.

17. A oes unrhyw gyn-bapurau a argymhellir ar gyfer Uned 2?

Mae'r hen fanyleb Safon Uwch Uned 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adlewyrchu rhywfaint ar y cynnwys a addysgir, ond mae'r cymhwyster hwn yn wahanol iawn felly efallai y bydd angen diwygio cwestiynau ac astudiaethau achos i adlewyrchu'r cynnwys yn y fanyleb hon a'r termau cyfredol.

18. I ba raddau y mae angen manylu ar y damcaniaethau gan fod rhestr eithaf hir ohonynt?

Fel y nodir yn y fanyleb: *Dylai dysgwyr wybod am a deall y cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â damcaniaethau sefydledig a meini prawf presennol a'r ffordd maent yn gysylltiedig â'i gilydd.*

19. A yw'n nodi yn y fanyleb bod dysgwyr yn cael dadansoddi graffiau?

Ydy, byddai Adran 2.4 dadansoddi data 'sut mae'r wlad yn monitro iechyd a llesiant' yn amlygu'r sgil hwn.

20. A fydd cwestiynau sy'n seiliedig ar ddata gan nad oes rhai yn y deunyddiau asesu enghreifftiol na phapur Ionawr 2021?

Ni allwn wneud sylwadau ar gwestiynau arholiad mewn unrhyw bapurau yn y dyfodol oherwydd cydymffurfiaeth reoleiddiol.

21. A oes enghreifftiau wedi'u marcio ar gael ar gyfer uned 2?

Oes, mae 6 o bapurau arholiad wedi'u cwblhau a'u marcio'n llawn ar gael drwy'r wefan ddiogel. Mae Adolygiad Arholiad Ar-lein hefyd ar gael ar wefan agored DIGC o dan adnoddau.

22. Ble galla i ddod o hyd i'r rhestr termau?

Mae rhestr o dermau i'w chael ar dudalen 88 y Canllawiau Addysgu: [gft-13-principlespluscontexts-gft-w-28102020.pdf](https://principlespluscontexts-gft-w-28102020.pdf) (dysguiechydagofal.cymru)

23. A fydd yr adnoddau ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yn cael eu diweddarau i gyd-fynd ag unedau'r cwrs hwn?

Bydd gennym enghreifftiadau a chynlluniau gwaith i'w rhannu cyn bo hir. Mae adnoddau digidol o gymwysterau IGC a GP eraill hefyd yn addas i'w defnyddio lle mae'r cynnwys yr un fath.

24. O ble gallwn gael yr adnoddau a nodir yn y canllawiau addysgu – fel y cardiau cymysgu a chyfateb a'r astudiaethau achos grŵp teulu?

Mae'r rhain yn awgrymiadau o adnoddau y gallwch eu cynhyrchu eich hun yn yr ystafell ddosbarth neu byddai'n arfer da i annog dysgwyr i gynhyrchu rhai mewn grwpiau ac yna cyfnewid â'i gilydd.

25. Sut ydw i'n dod o hyd i bapurau'r hen fanyleb iechyd a gofal cymdeithasol?

Mae papurau'r hen fanyleb TAG blaenorol ar gael ar y wefan ddiogel.

26. A fydd y ffiniau graddau yn debyg i rai arholiad mis Ionawr 2021?

Mae ffiniau graddau yn newid o gyfres i gyfres. Gallwch eu gweld yma: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx>

27. Uned 3 – Hoffai dau o'm myfyrwr i'w hasesiad ganolbwyntio ar Unigolion ag ADHD. A fyddai hynny'n gweithio?

Mae rhestr o grwpiau penodol ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Cyn belled â bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth i gyrraedd y bandiau marciau uwch, mae hyn yn iawn.

28. A yw'r papur arholiad ar gael fel arholiad digidol neu fel arholiad ysgrifenedig yn unig?

Mae'r papur arholiad ar gael yn ddigidol ac ar bapur. Cysylltwch ag [e-assessment@wjec.co.uk](mailto:assessment@wjec.co.uk) i gofrestru eich diddordeb.

29. Soniwyd yn flaenorol y byddai mwy o ddeunyddiau asesu enghreifftiol ar gael. A fydd y rhain ar gael gyda'r enghreifftiadau wedi'u marcio?

Mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar ddechrau'r cymhwyster. Mae enghreifftiadau a chyn-bapurau ar gael wrth i'r cymhwyster fynd yn ei flaen.

30. A oes rhaid i'r Powerpoint UNED 3 gynnwys 5000 o eiriau? Oes angen sgrïpt?

Os yn defnyddio cyflwyniad PowerPoint (a allai gynnwys troslais) ar gyfer asesiad di-arholiad Uned 3, gall nodiadau a/neu sgrïpt fod yn ychwanegol i'r cyfrif geiriau o 5,000 o eiriau, gan fod y rhain yn aml yn ailadrodd cynnwys y cyflwyniad felly ni ddylid eu cynnwys yn y cyfrif geiriau. Mae angen ei gwblhau o fewn yr 20 awr. Mae hyn, a manylion pellach, i'w gweld yn y deunyddiau asesu enghreifftiol mewnol, sydd ar gael o'r adran Dogfennau Allweddol ar dudalen pwnc Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ar wefan DIGC

31. A fyddai problem pe bai pob dysgwr yn dewis yr un grŵp ar gyfer asesiad di-arholiad uned 3 ?

Na, byddai'n anodd iawn i bob dysgwr ddewis grwpiau gwahanol. Fodd bynnag, dylai'r holl waith fod yn unigol ac felly ni ddylai fod yn union yr un fath o ran dull na chymhwyso gwybodaeth.

32. Dydw i ddim wedi clywed am Max Neef. Nid yw ym manyleb Uned 2, ydy e?

Ydy, mae yn uned 3, adran 3.2:

Dylai dysgwyr wybod a deall mai mwynhau'r safon orau posibl o iechyd a llesiant yw un o hawliau sylfaenol pob unigolyn heb wahaniaethu ar sail hil, crefydd, cred grefyddol, cyflwr economaidd neu gymdeithasol a pham mae hyn yn bwysig.

I gynnwys:

- *prif anghenion unigolion: Maslow, Erikson, Max Neef*
- *hawliau sylfaenol unigolion: safon byw ddigonol (yn cynnwys bwyd a thai), addysg ac iechyd, rhyddid meddwl, crefydd a mynegiad.*

33. A fyddai dysgwyr yn cael eu cosbi pe baent wedi rhoi gormod o wybodaeth yn eu tystiolaeth asesiad di-arholiad?

Gofynnir i ddysgwyr gadw at y cyfrif geiriau. Mae hwn yn sgîl ynddo'i hun sy'n ddefnyddiol ar lefel prifysgol. Gall unrhyw beth sy'n uwch na hyn godi pryderon ynghylch a yw'r asesiad wedi'i gynnal o fewn yr amseroedd rheoledig.

34. A oes cynlluniau gwaith ar gael ar gyfer pob uned?

Mae gennym gynlluniau gwaith ar gyfer pob uned, a byddant ar wefan DIGC ym mis Rhagfyr. Ceir rhywfaint o arweiniad hefyd yn y ddogfen Canllawiau addysgu.

35. A oes rhaid cwblhau'r asesiad di-arholiad yn yr un bloc o 20 awr neu a allech chi addysgu rhan ac ateb y dasg honno mewn bloc llai o amser ac yna addysgu rhan b ac ati?

Byddem yn cynghori i gwblhau oriau'r asesiad di-arholiad mewn bloc gan fod dysgwyr yn cael dealltwriaeth o'r asesiad ac os gadewir cyfnodau hir rhwng sesiynau efallai y byddant yn colli momentwm. Dylai'r dysgwyr ddechrau ar asesiadau pan fydd yr holl gynnwys wedi'i gyflwyno a'ch bod yn teimlo eu bod yn barod i'w hasesu.

36. Pa fideos You Tube a Blogiau fydddech chi'n eu hargymell?

Ceir rhestr yn y Canllaw Addysgu ac yn y ddogfen Camu ymlaen i'r Diploma ar wefan DIGC.

37. Byddai bloc o 20 awr yn cymryd tua 8 wythnos gan mai dim ond am 5 awr bob pythefnos maen nhw gyda mi? Mae angen i mi addysgu Uned 2 hefyd. A ddylwn i gael mwy o oriau addysgu?

Mae angen 360 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y Dystysgrif. Mae hyn yn cyfateb i Safon Uwch ac felly dylid neilltuo'r un faint o amser.

38. Uned 2 - yn fy marn i mae'r damcaniaethwyr wedi'u grwpio mewn ffordd sy'n ddryslyd. Dydw i ddim yn deall pam mae rhai damcaniaethau'n ymddangos mewn mwy nag un dull e.e., Vygotsky. Ble ddylwn i addysgu'r rhain? O dan pa ddull?

Mae'r fanyleb yn nodi: *'Modelau sy'n gysylltiedig â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar bob rhan o'r rhychwant oes. Dylai dysgwyr wybod am y cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â damcaniaethau sefydledig a meini prawf presennol a'r ffordd maent yn gysylltiedig â'i gilydd, a'u deall.'* Dyma'r rhan allweddol, sut maent yn cydberthyn ac yn berthnasol i dwf a datblygiad ar bob rhan o'r rhychwant oes.

39. A oes trosolwg ar gyfer unedau 4 a 5 o ran sut mae'n cysylltu â'r hen gymhwyster? Mae un ar-lein ar gyfer unedau 1, 2 a 3 ond nid yw'n ymdrin ag unedau 4 a 5?

Oes, rydym wedi comisiynu hyn a bydd ar y wefan yn gynnar ym mis Ionawr.

40. Pryd mae arholiad uned 2 ym mis Ionawr 2022?

Cynhelir arholiad Uned 2 ar ddydd Iau 13 Ionawr 2022

41. Ble gallaf ddod o hyd i ffiniau graddau pob cyfres?

Mae'r ffiniau graddau i'w gweld yma: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx>

42. A oes gwerslyfr ar gyfer yr Unedau Diploma?

Oes, bydd gwerslyfr ar gyfer yr unedau Diploma. Mae'n cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd a bydd ar gael yn ystod haf 2022.

43. A yw dysgwyr yn cael defnyddio'r profiad gwaith a gawsant ym Mlwyddyn 1 y cymhwyster, os ydynt wedi cadw dyddiadur?

Ydyn, os yw dysgwyr yn gallu cael profiad gwaith ym mlwyddyn gyntaf y cymhwyster, mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent yn eu hennill / y profiad a gawsant yn iawn i'w defnyddio ar gyfer yr asesiadau Diploma.

44. Ble gallaf ddod o hyd i'r log Ymgysylltu â'r Sector?

Mae ar dudalen 99 y Canllawiau Addysgu [gft-l3-principlespluscontexts-gft-w-28102020.pdf](#) ([dysguiechydagofal.cymru](#)). Bydd fersiwn Word hefyd ar gael dan Dogfennau Allweddol o fis Rhagfyr ymlaen.

45. Rwyf wedi sylwi ei fod yn nodi dim ysgolion prif ffrwd ar gyfer lleoliad gwaith ond os yw'r dysgwr yn cefnogi plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol, a yw hyn yn dderbyniol?

Rydym yn cydnabod yr heriau o ddod o hyd i leoliadau gwaith, ond yr arfer gorau fyddai seilio unrhyw brofiad o gefnogi plentyn ag angen gofal/angen meddygol mewn ysgol arbennig neu uned addysg arbennig mewn lleoliad ysgol. Mae lleoliadau gwaith ysgolion prif ffrwd yn fwy addas i ddysgwyr GPDDCh.

46. Gan mai dim ond am uned 4 ac uned 5 haf 2022 y mae dysgwyr yn cael eu hasesu, beth fydd y cydbwysedd ar gyfer y radd gyffredinol ar y diwedd? Gan nad yw unedau 1-3 yn cael eu cyfrif tuag at eu gradd ddwyradd gyffredinol hefyd.

Bydd y pwysoliadau yn 50% ar gyfer uned 4 a 50% ar gyfer uned 5 yn 2022 yn unig.

47. A fydd CBAC yn darparu mwy o ddeunyddiau enghreifftiol i athrawon eu defnyddio?

Darparwyd cyfleoedd i asesu marcio ar gyfer pob uned yn ystod y DPP ym mis Ionawr a thymor yr hydref yn 2022 ac mae'r adnoddau wedi'u lleoli ar y wefan ddiogel. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar ddeunyddiau enghreifftiol ychwanegol a byddwn yn anfon cylchlythyr cyn diwedd tymor yr hydref i roi gwybod am ddyddiadau rhyddhau.

48. Ble mae adnoddau ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn?

Mae adnoddau newydd wedi'u cynhyrchu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth ac asesu. Rydym wedi cynhyrchu [traciwr adnoddau](#) hwylus â chysylltau wedi'u mewnblannu ynddo sydd ar gael yma.

49. Ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru:

<https://www.diogelu.cymru/>

